
# Adroddiad Blynyddol
# 2014–2015

**Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)**

**Mary Carter**

**Stuart Castledine**

**Yr Athro Monojit Chatterji**

**Yr Athro Laura McAllister**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gareth Price**, Clerc

**Dan Collier**, Dirprwy Glerc

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn mewn ffurfiau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Clerc y Bwrdd Taliadau**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: 0300 200 6330
E-bost: **Taliadau@cynulliad.cymru**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... **5**

**Y Bwrdd Taliadau** .......... **6**

Sefydlu a Phenodi .......... 6

Swyddogaethau ac Amcanion .......... 6

Gofynion Statudol .......... 7

Egwyddorion .......... 7

Methodoleg .......... 7

Ymgynghori a chasglu tystiolaeth .......... 8

**Gwaith y Bwrdd yn 2014-15** .......... **9**

Adolygu Penderfyniadau .......... 9

Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2015-16 .......... 9

Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2015-16, a'r buddion .......... 10

Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad .......... 12

Pensiynau Aelodau'r Cynulliad .......... 12

Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu .......... 13

Ystyried taliadau eithriadol .......... 15

Gwaith arall .......... 15

**Rhaglen Waith 2015-16** .......... **16**

**Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau** .......... **17**

Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd) .......... 18

Mary Carter .......... 18

Stuart Castledine .......... 18

Yr Athro Monojit Chatterji .......... 19

Yr Athro Laura McAllister .......... 19

**Dadansoddiad o Gostau'r Bwrdd** .......... **20**

Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth) .......... 20

Treuliau Aelodau'r Bwrdd .......... 20

Costau ychwanegol .......... 20

# Cyflwyniad

Nod y Bwrdd Taliadau erioed fu sicrhau bod strwythur ar waith ar gyfer cyflogau, pensiynau a lwfansau – a hynny flwyddyn cyn dechrau'r Pumed Cynulliad – a bod y strwythur hwnnw'n un teg a chlir, sy'n sicrhau gwerth am arian ac sy'n addas i'r diben. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y gwaith a wnaed gennym yn 2014-15 i gyflawni'r nod hwnnw.

Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol ar saith achlysur. Hefyd, cynhaliodd ei aelodau waith ymchwil ac ymgynghori helaeth rhwng cyfarfodydd er mwyn cyflawni gwaith y Bwrdd. Fel Cadeirydd, rwyf wedi trafod yn rheolaidd â staff y Llywydd ac arweinwyr y pleidiau ac rwyf wedi cyfarfod ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn aml.

Mae'r Bwrdd yn anelu at sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael eu talu'n briodol ac yn cael yr adnoddau ariannol angenrheidiol i weithredu'n effeithiol mewn sefydliad seneddol modern. Mae'r Cynulliad wedi esblygu'n sylweddol ers ei sefydlu yn 1999 ac, yn wir, ers i'r Bwrdd Taliadau gael ei greu yn 2010. Mae'r penderfyniadau a wnaethom yn 2014-15 yn adlewyrchu'r esblygiad cyson hwnnw o bwerau a chyfrifoldebau'r Cynulliad. Er bod rhai o'n penderfyniadau wedi bod yn amhoblogaidd, credwn eu bod yn rhai priodol ar gyfer datblygiad democratiaeth seneddol yng Nghymru yn y tymor hir.

Mae pobl Cymru yn haeddu llywodraeth dda, ac nid oes modd sicrhau llywodraeth dda dim ond pan fydd proses gadarn o graffu a chynrychiolaeth yn y Cynulliad. Yr her yn awr i'r cyhoedd yw mynnu'r ymgeiswyr cryfaf posibl i wasanaethu anghenion pobl Cymru, ac i'r pleidiau gwleidyddol ymateb i'r her honno.



**Sandy Blair CBE DL, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

**Gorffennaf 2015**

# Y Bwrdd Taliadau

Mae'r bennod hon yn disgrifio swyddogaethau'r Bwrdd, ei gylch gwaith a'i ffyrdd o weithio.

## Sefydlu a Phenodi

1. Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur), a dderbyniodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

2. Cafodd y Bwrdd ei benodi gan weithdrefn dryloyw o benodiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod haf 2010. Mae bywgraffiadau pob un o aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yn Atodiad A. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi'u penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chaniateir iddynt gael eu penodi am fwy na dau dymor.

3. Cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y penodiadau'n ffurfiol ar 21 Medi 2010, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2010.

4. Yn dilyn ymddiswyddiad Syr George Reid ym mis Medi 2013, etholwyd Sandy Blair yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Hydref 2013.

5. Er mwyn cynyddu capasiti'r Bwrdd a gwella ei arbenigedd wrth ddatblygu'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, penodwyd Laura McAllister i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2014.

## Swyddogaethau ac Amcanion

6. Swyddogaethau'r Bwrdd, fel y'u nodir yn Adran 3 o'r Mesur, yw penderfynu ar lefel o daliadau a system o gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad (a elwir o hyn ymlaen yn Aelodau) sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddi.

7. Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

   – darparu lefel o dâl i Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn ymgymryd â hwy, ac nad yw'n rhwystro unigolion, am resymau ariannol, rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;

   – darparu adnoddau digonol i Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau; a

   – sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

## Gofynion Statudol

8. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r ffordd y gweithredir ei benderfyniadau a'i effeithiolrwydd yn barhaus, gan ystyried yn benodol y profiad y mae'r Bwrdd yn ei feithrin wrth roi ei Benderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau i swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw amgylchiadau eraill sy'n berthnasol.

9. Er ei fod yn annibynnol ar y Cynulliad, ac nad yw'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd na rheolaeth Comisiwn y Cynulliad, mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd, wrth arfer ei swyddogaethau, i ymgynghori â'r rhai y mae ei benderfyniadau yn debygol o effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu gan grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Bwrdd o'r farn eu bod yn briodol.

10. Mae adran 2 o'r Mesur yn caniatáu i'r Bwrdd gyfarfod yn breifat os yw o'r farn bod hynny'n briodol, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu mewn modd agored a thryloyw, a chyhoeddi ar wefan y Cynulliad wybodaeth am ei weithgareddau ar gyfer y cyhoedd. Yn ogystal, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol am ei weithgareddau, gan gynnwys yr adnoddau a ddefnyddir ganddo, yn ystod pob blwyddyn ariannol.

## Egwyddorion

11. Mae gwaith y Bwrdd hyd yma yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a ddiffiniwyd yn glir:

   – dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;

   – rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;

   – rhaid i'r system o gymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw ac yn gynaliadwy, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## Methodoleg

12. Mae'r penderfyniadau a nodir yn y Penderfyniadau yn deillio o adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system o roi cymorth ariannol a thâl, ac maent yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan yr Aelodau, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill. Mae'r dystiolaeth a gafodd y Bwrdd wedi ei alluogi i gael syniad clir o ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae'r Aelodau yn cyflawni'r dibenion hynny. Mae'r Bwrdd wedi rhoi system daliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelod. Yn unol â'i gylch gwaith, mae'r Bwrdd yn ymateb i adborth fel y bo'r angen, drwy ystyried gwelliannau i'r Penderfyniad er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i'r diben.

13. Yn unol ag adran 9 o'r Mesur, mae'r Bwrdd yn cael cymorth clercio ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chyngor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Darperir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn, ac nid yw felly'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol i'r Bwrdd Taliadau.

14. Roedd y Bwrdd yn awyddus i gael adborth annibynnol ar y ffordd y mae'n gwneud ei waith er mwyn dysgu gwersi ar gyfer Byrddau'r dyfodol. Felly, dechreuodd broses, gyda chymorth gwasanaeth archwilio mewnol Comisiwn y Cynulliad, i adolygu pa mor effeithiol yw ei ffordd o weithio. Bydd argymhellion yr adolygiad hwn yn cyfrannu at yr adroddiad gwaddol.

## Ymgynghori a chasglu tystiolaeth

15. Ar gyfer pob rhan o'i waith, ac yn unol ag adran 2 o'r Mesur, mae'r Bwrdd wedi ymgynghori ag amryw randdeiliaid. Mae'r Bwrdd yn arbennig o ddiolchgar i'r rhai sydd wedi rhoi o'u hamser i roi tystiolaeth i gefnogi ei waith ers iddo gael ei sefydlu.

16. Mae adborth gan yr Aelodau yn ystod y sesiynau ymgynghori mynych wedi galluogi'r Bwrdd i werthuso pa mor effeithiol yw'r systemau a gyflwynwyd ganddo. Bydd y Bwrdd yn parhau i gysylltu ac ymgynghori i sicrhau bod ei benderfyniadau yn dal i fod yn addas at y diben.

# Gwaith y Bwrdd yn 2014-15

Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau y mae'r Bwrdd wedi'u gwneud i'r Penderfyniad eleni yn dilyn yr adborth a'r dystiolaeth a gafwyd gan yr Aelodau. Mae hefyd yn sôn am y gwaith sylweddol a wnaeth y Bwrdd ar ei adolygiad manwl o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

## Adolygu Penderfyniadau

17. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i roi i'r Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau. Er mwyn gwneud hyn, gwahoddodd y Bwrdd adborth a thystiolaeth gan yr Aelodau a oedd yn ei alluogi i asesu effeithiolrwydd y penderfyniadau a nodi unrhyw feysydd i'w hadolygu.

18. Mae'r Bwrdd wedi adolygu penderfyniadau mewn nifer o feysydd, a restrir isod. Lle bo angen, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r Penderfyniad ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad. Fodd bynnag, nid oedd y Bwrdd yn awyddus i wneud newidiadau pellgyrhaeddol ar gyfer blwyddyn olaf y Cynulliad hwn gan ei fod yn gwneud adolygiad eang o'r Penderfyniad[1] ar gyfer y Pumed Cynulliad er mwyn creu pecyn o gymorth ariannol i'r Aelodau a fyddai'n addas ar gyfer sefydliad gyda mwy o bwerau deddfwriaethol a threthiant.

## Newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2015-16

19. Yn 2014 adolygodd y Bwrdd y cyflogau a'r trefniadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a ddisgrifir yn ei Benderfyniad drafft ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.[2] Cynigiwyd cynnydd o 1% yng nghyflog Aelodau'r Cynulliad yn 2015-16, i £54,391.

> Penderfyniad
>
> O fis Ebrill 2015 ymlaen, bydd cyflog sylfaenol Aelod Cynulliad yn cynyddu o 1% i £54,391.

20. Y cynnydd mwyaf o ran costau cyflogau a allai ddigwydd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn fyddai £32,340.

---

*[1] Y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, mis Mai 2015*
*[2] Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, Ebrill 2015*

# Cyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2015-16, a'r buddion

21. Yn 2013, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad eang o'r cyflogau a'r trefniadau ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a ddisgrifir yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd[3]. Ar gyfer 2015-16 cynigiodd y Bwrdd gynnydd o 1% yng nghyflog Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad neu'r cynnydd blynyddol hyd at fis Mawrth yn yr enillion canolrifol yng Nghymru, fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE), pa un bynnag fyddai'r mwyaf. Y cynnydd blynyddol yn enillion canolrifol ASHE oedd 1.2%.

Penderfyniad

O fis Ebrill 2015, cynyddodd cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 1.2%. Dangosir y graddfeydd cyflog newydd isod. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 bydd pob Aelod yn cael uchafswm lwfans staffio o £91,879 er mwyn cyflogi staff ar y graddfeydd hyn.

22. Y cynnydd mwyaf o ran costau cyflogau a allai ddigwydd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn fyddai £62,695, ond mae'r gwariant gwirioneddol yn debygol o fod lawer yn llai na hyn.

**Ffigur 1: Graddfeydd cyflog staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2015-2016**

| Band | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch-gynghorydd** | £31,388 | £32,995 | £34,687 | £36,465 | £38,340 |
| **Band 1** | £23,326 | £25,416 | £27,701 | £30,195 | £32,922 |
| **Band 2** | £19,920 | £21,912 | £24,109 | £26,529 | £29,202 |
| **Band 3** | £18,038 | £19,435 | £20,941 | £22,569 | £24,325 |

23. Nid oedd y Bwrdd o blaid newid y trefniadau pensiwn ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, mewn ymateb i adborth a gafwyd i'r ymgyngoriadau blaenorol ar strwythur a chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, cyflwynodd y Bwrdd ddarpariaeth marwolaeth mewn swydd ar gyfer staff cymorth a newidiodd y trefniadau diswyddo ar gyfer y rhai sy'n colli eu swyddi yn annisgwyl.

24. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyflwyno darpariaeth yswiriant bywyd ar gyfer staff cymorth yn 2015-16, sydd ddwywaith y cyflog blynyddol gwirioneddol.

25. Mae gan Aelod hawl i wneud cais am ei gostau wrth roi taliadau diswyddo i staff cymwys os yw'r Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Cynulliad am unrhyw reswm. Yn y Penderfyniad

[3] *Adolygiad o drefniadau staffio Aelodau'r Cynulliad a chyflogau staff cymorth Aelodau'r Cynulliad: Rhagfyr 2014*

blaenorol, byddai staff gydag o leiaf ddwy flynedd o wasanaeth gyda'r Aelod yn gymwys am dâl diswyddo statudol wedi'i uwchraddio 50%.

26. Cododd yr ymgyngoriadau ar Gymorth i Aelodau'r Cynulliad a'r Penderfyniad drafft ar gyfer y Pumed Cymulliad gwestiynau hefyd o ran gwell trefniadau diswyddo. Felly, mae'r Bwrdd wedi diwygio'r ddarpariaeth ddiswyddo er mwyn cynnig dwywaith y tâl diswyddo statudol yn hytrach nag un a hanner gwaith y tâl diswyddo statudol ar gyfer staff cymorth y mae eu swyddi yn cael eu dileu yn ddirybudd. Byddai taliadau o un a hanner gwaith y tâl diswyddo statudol yn gymwys ym mhob achos arall, yn enwedig pan fydd yr Aelod sy'n cyflogi wedi'i wneud yn gyhoeddus ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad, ac yn rhoi o leiaf fis o rybudd i'r staff.

27. O ganlyniad i adborth gan Aelodau, mae'r Bwrdd wedi cael gwared â'r cap presennol o £2,000 ar gostau teithio a goramser, yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael yng nghyllidebau'r Aelodau.

28. Fodd bynnag, cafodd y Bwrdd adborth bod wythnos o rybudd yn gallu achosi problemau i Aelodau nad ydynt yn gallu dod o hyd i aelod arall o staff yn gyflym. Mae'r Bwrdd o'r farn y byddai cyfnod hirach o rybudd, sef mis o rybudd ar ôl tri mis o wasanaeth, yn cynnig mwy o ddiogelwch ar gyfer y cyflogwr a'r gweithiwr. Ar hyn o bryd, dim ond wythnos o rybudd y mae'n rhaid i staff cymorth ei roi ym mlwyddyn gyntaf y swydd. Felly, mae'r Bwrdd wedi diwygio'r contract safonol i gynyddu'r cyfnod hwn o rybudd i fis ar ôl tri mis o gyflogaeth.

29. Mewn trafodaethau ag arweinwyr y pleidiau ac eraill, cafodd y Bwrdd gryn gefnogaeth i gyflwyno cynllun prentisiaeth sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc weithio i Aelodau Cynulliad unigol neu i bleidiau gwleidyddol. Denwyd y Bwrdd gan y syniad hwn, ond credai mai mater i Gomisiwn y Cynulliad yw ei weithredu. Felly gwahoddwyd Comisiwn y Cynulliad i edrych ar y cynnig yn fanylach.

---

Penderfyniadau

Darpariaeth marwolaeth mewn swydd ar gyfer staff cymorth sydd ddwywaith y cyflog blynyddol gwirioneddol o 2015-16 ymlaen.

Diwygiwyd y ddarpariaeth ddiswyddo fel bod staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n cael eu hunain yn ddi-waith yn sydyn yn derbyn dwywaith y tâl statudol. Ym mhob achos arall, bydd yn dal i fod yn un a hanner y tâl diswyddo statudol.

Cael gwared ar y cap presennol o £2,000 ar dreuliau teithio a goramser staff.

Cynyddu'r cyfnod o rybudd i fis i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ar ôl iddynt gael eu cyflogi am dri mis.

Gwahoddwyd Comisiwn y Cynulliad i ystyried gweithredu'r cynllun prentisiaeth.

---

# Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad

30. Roedd rhan fwyaf gwaith y Bwrdd yn 2014-15 yn ymwneud â'r Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad.

31. Ym mis Mai 2015, cyhoeddodd y Bwrdd adroddiad manwl[4] sy'n nodi canlyniadau'r gwaith hwn.

**Mae'r blwch isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a'r newidiadau i'r Penderfyniad.**

Penderfyniadau

Y cyflog ar gyfer yr Aelodau yn y Pumed Cynulliad fydd £64,000. Bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r cyflog a delir i'r Aelodau yn adlewyrchu'r newidiadau mewn enillion cyfartalog yng Nghymru.

Bydd rôl newydd Uwch-gynghorydd yn cael ei chreu i roi cyfle i'r Aelodau gynyddu eu capasiti staffio ar gyfer y prosesau craffu a dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

Bydd y lwfans i Aelodau fwrw'r nos yn yr ardal fewnol yn cael ei ddiddymu. Fodd bynnag, bydd yr Aelodau yn cael cyfle i wneud cais i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau am ad-daliad mewn amgylchiadau eithriadol.

Yn amodol ar gymeradwyo Achos Busnes, bydd Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sy'n preswylio gyda nhw yng Nghaerdydd yn gallu hawlio hyd at £1,440 y flwyddyn i dalu am y gost uwch o rentu llety addas.

Felly, caiff maint y gronfa ei chynyddu o £2,000 i £2,500, ac ehangir ei chylch gwaith i gynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu'n lleol. Caiff y penderfyniad hwn ei adolygu gan y Bwrdd olynol ar ôl blwyddyn.

Amcangyfrifir mai'r gyllideb uchaf bosibl ar gyfer blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad fydd £14.5 miliwn.

# Pensiynau Aelodau'r Cynulliad

32. Nod y Bwrdd wrth adolygu pensiynau'r Aelodau oedd gwneud trefniadau at y dyfodol sy'n deg o ran cyfanswm y costau a rhannu risg, ac sy'n fforddiadwy i drethdalwyr ac i'r Aelodau. Mae'r Bwrdd o'r farn bod yn rhaid i'r trefniadau ar gyfer yr Aelodau adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac sy'n effeithio ar bobl Cymru. Gydag amser, bydd y newidiadau yn arbed arian i drethdalwyr, gan sicrhau ar yr un pryd fod y rhai sy'n cael eu hethol i'r Cynulliad yn cael darpariaeth briodol ar gyfer eu hymddeoliad.

33. Yn ystod gwaith y Bwrdd, mae wedi cyhoeddi tri ymgynghoriad annibynnol ar gynigion ar gyfer cynllun pensiwn newydd i Aelodau'r Cynulliad. Roedd yr ymgynghoriad terfynol a

[4] ***Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad***

gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 yn cynnwys cynigion penodol ar gyfer y strwythur budd-daliadau, y cyfraddau cyfrannu a sut y byddai'r cynllun yn gweithio. Hefyd, cyflwynwyd cynigion ar gyfer y cynllun pensiwn newydd yn yr ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft ar gyfer y Pumed Cynulliad.

34. Drwy gydol y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, gweithiodd y Bwrdd gydag chynghorwyr cyfreithiol a chynghorwyr actiwaraidd allanol i fireinio'r opsiynau a'r cynigion ar gyfer y cynllun newydd. Cost y gwaith cyfreithiol ac actiwaraidd hwn yn 2014-15 oedd £62,376.04 (gan gynnwys TAW).

35. Mae'r Bwrdd wedi gofyn am gadarnhad gan Drysorlys EM i sicrhau bod y cynllun pensiwn yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus. Disgwylir ymateb Trysorlys Ei Mawrhydi yn ystod yr haf. Caiff y cynllun ei weithredu ar ôl etholiad 2016.

## Y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

36. Un o'r penderfyniadau cyntaf a wnaeth y Bwrdd oedd sefydlu cronfa fel y gallai'r Aelodau hawlio hyd at £2,000 er mwyn comisiynu darnau penodol o waith ymchwil o ffynonellau allanol. Roedd yr adborth gan yr Aelodau a ddefnyddiodd y Gronfa Polisi ac Ymchwil yn 2013-2014 yn gadarnhaol a chytunodd y Bwrdd i fonitro faint oedd yn ei defnyddio a thrafod opsiynau ar gyfer ei gwella.

37. Fel rhan o'i adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad, trafododd y Bwrdd y defnydd a wneir o'r Gronfa, a chytunodd ar ddau brif ddatblygiad:

- y byddai lefel y cyllid sydd ar gael i bob Aelod yn cael ei gynyddu o £2,000 y flwyddyn i £2,500 y flwyddyn; ac
- ehangu’r gronfa fel y gallai'r Aelodau ymgysylltu â'u hetholwyr (gan newid ei theitl i'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu).

38. Yn ystod 2014-15, defnyddiodd yr Aelodau'r Gronfa Polisi ac Ymchwil i gyflawni gwaith yn y meysydd canlynol:

**Ffigur 2: Gwybodaeth am brosiectau'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu 2014-15**

| Aelod | Title |
|---|---|
| Aled Roberts | Gofal Plant yng Nghymru |
| Byron Davies | Llwybrau i waith ar gyfer pobl ifanc |
| Elin Jones | Gwella'r polisi iechyd meddwl yng Nghymru |
| Eluned Parrott | Ardaloedd Gwella Busnes |
| Jocelyn Davies | Sicrhau bod menywod yng Nghymru yn cyrraedd eu potensial |
| Kirsty Williams | Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cymharu systemau ambiwlans Cymru, yr Alban a Lloegr |
| Leanne Wood | Rhagor o Ddatganoli Llesiant i Gymru |
| Llyr Huws Gruffydd | Sut y gallwn gynhyrchu mwy o'n bwyd eu hunain mewn ffordd gynaliadwy |
| Peter Black | Diwylliant, y Celfyddydau a Threftadaeth - Ymchwilio sut orau y gall Llywodraeth Cymru gefnogi'r meysydd hyn |
| Russell George | Arolwg Iechyd – i fesur a deall canfyddiadau'r cyhoedd am faterion iechyd yn Sir Drefaldwyn<br>Arolwg Ffermio – i ganfod barn y gymuned ffermio yn Sir Drefaldwyn |
| William Powell | Targedau Amgylcheddol - cynnig targedau posibl a allai gael eu cynnwys ym Mil yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru |

## Ystyried taliadau eithriadol


39. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai amgylchiadau eithriadol personol effeithio ar Aelodau unigol o bryd i'w gilydd, gan effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y rhain yn aml yn gyfrinachol eu natur, a gallant godi ar fyr rybudd. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i gefnogi’r Aelodau ym mhob agwedd ar eu rôl ac, ym marn y Bwrdd, os caiff wybod am amgylchiadau o'r fath, dylai wneud penderfyniad a oes achos o blaid darparu cymorth ariannol eithriadol. Yn amlwg, mae angen ymdrin â cheisiadau o'r fath mewn ffordd sensitif, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.

40. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Bwrdd un cais o dan y weithdrefn hon. Yn yr achos hwnnw trafododd y Bwrdd yr holl ffactorau'n ofalus a chytunwyd y dylai'r polisi fod yn hyblyg er mwyn bodloni gofynion yr Aelod ar yr achlysur hwn.

## Gwaith arall

41. Yn ogystal â'i gyfarfodydd rheolaidd â'r Aelodau a'r Staff Cymorth, cyfarfu Cadeirydd y Bwrdd ag ymwelwyr tramor i'r Cynulliad a oedd yn awyddus i ddysgu rhagor am y Bwrdd a'i ffyrdd o weithredu.

42. Yn ystod 2014-15 rhannodd y Cadeirydd arferion da gyda nifer o gyrff allanol. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gomisiwn Deiliaid Swyddi Cyhoeddus Namibia (POBC) a Mitchel McLaughlin MLA, Llefarydd Cynulliad Gogledd Iwerddon.



**Ym mis Mai 2014, cyfarfu'r Cadeirydd â dirprwyaeth o Gomisiwn Deiliaid Swyddi Cyhoeddus Namibia (POBC).**

43. Mae'r tymor pum mlynedd ar gyfer Aelodau'r Bwrdd yn dod i ben ym mis Medi 2015. Yn dilyn ymgyrch recriwtio agored, mae'r Bwrdd newydd eisoes wedi'i gyhoeddi.

44. Er bod y Bwrdd wedi pennu'r strwythur ar gyfer cyflogau'r staff cymorth, a chostau swyddfeydd a llety preswyl ar gyfer y Pumed Cynulliad, bydd y penderfyniad terfynol am yr union lefelau i'w cymhwyso ar ddechrau'r Cynulliad yn cael eu gwneud gan y Bwrdd yn gynnar yn 2016, yng ngoleuni cyflwr y farchnad ar y pryd.

45. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd y Bwrdd yn y camau olaf o ddatblygu trefniadau pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, ac nid oedd eto wedi derbyn cymeradwyaeth gan Drysorlys EM ar gyfer gweithredu'r cynllun pensiwn. Fodd bynnag, disgwylir y caiff y broses ei chwblhau, ac y caiff cynllun terfynol ei gymeradwyo cyn i'r Bwrdd newydd gyfarfod am y tro cyntaf yn ystod yr hydref.

46. Fel rhan o'i benderfyniad ynghylch y cyflogau ar gyfer deiliaid swyddi yn y Pumed Cynulliad, mae'r Bwrdd wedi pennu cyflogau ychwanegol ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau, gan dybio y bydd strwythur presennol y pwyllgorau yn parhau. Bydd angen i'r Bwrdd newydd adolygu'r penderfyniad hwn yng ngoleuni'r strwythur pwyllgorau a sefydlwyd gan y Pumed Cynulliad.

47. Bydd y Bwrdd yn parhau i gynnal archwiliadau ac adolygiadau o bolisïau lle bo angen a sicrhau bod y gweithdrefnau newydd yn gweithio'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r trefniadau newydd ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu ar ôl ei blwyddyn gyntaf.

48. Mae'r Bwrdd wrthi'n llunio adroddiad gwaddol ar wahân i nodi diwedd ei bum mlynedd cyntaf. Bydd yn cynnwys argymhellion pellach i gadeirydd ac aelodau newydd y Bwrdd eu hystyried wrth lunio rhaglen waith ar gyfer y tymor nesaf o bum mlynedd.

# Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau

Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Mae'r Bwrdd yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael lefel o dâl sy'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn rhwystro pobl sydd â'r ymroddiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol yn Aelodau Cynulliad;
- sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau; a
- sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus.

Gofynnir i'r Bwrdd ymddwyn mewn ffordd agored a thryloyw ac ymgynghori â'r rhai y mae'r gwaith o arfer ei swyddogaethau yn debygol o effeithio arnynt, os bydd o'r farn bod hynny'n briodol.

Caiff costau'r Bwrdd a'r treuliau a hawliwyd gan yr Aelodau eu cyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol. Bwriedir cyhoeddi fersiwn 2015-16 yn ystod yr haf. Mae agenda a chofnodion pob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd yn:

**http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListMeetings.aspx?CmmitteeId=375**

## *Sandy Blair CBE DL (Cadeirydd)*



Mae Sandy yn gyn-gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (fe ymddeolodd yn 2004). Roedd yn brif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ef oedd Llywydd Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE) rhwng 1999 a 2000. Mae wedi cael ei gyflogi mewn nifer o swyddi cyhoeddus, gan gynnwys bod yn gyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n gadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy, yn  Ymddiriedolwr Sefydliad Bevan a Growing Space, yn Is-lywydd Clwb Busnes Caerdydd ac mae ganddo nifer o swyddi ar Gorff Llywodraethu a Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Mae wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## *Mary Carter*



Ymddeolodd Mary o fod yn bartner gyda KPMG ym mis Medi 2008. Mae'n gyn-aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar gyflog, lwfansau digolledu a thaliadau'r fyddin ac mae'n Ymgynghorydd Lleyg ar gyfer Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA (Cytundebau Aml-asiantaeth i Ddiogelu'r Cyhoedd) yng Ngwlad yr Haf. Mae'n gyfreithwraig sydd wedi arbenigo am dros 25 mlynedd mewn cynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt ynghylch cyflogau a chymhellion ariannol ar gyfer cyfarwyddwyr/uwch-reolwyr a materion rheoli a threthu cysylltiedig.

## *Stuart Castledine*



Cyfrifydd siartredig sydd wedi dal nifer o swyddi ariannol a rheolaeth gyffredinol yn y sector yswiriant a bancio cyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae Stuart wedi ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau heriol yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat, gan helpu i sefydlu cyd-fentrau a chynghreiriau sylweddol yn ogystal â bod yn llwyddiannus fel cyfarwyddwr wrth wrthdroi sefydliadau sy’n methu. Bu Stuart yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn gadeirydd Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru rhwng 2010 a 2014.

## *Yr Athro Monojit Chatterji*



Mae'n academydd a chanddo brofiad sylweddol o bolisi cyhoeddus, ac mae wedi cyhoeddi gwaith ymchwil mewn sawl maes, gan gynnwys y ffactorau sy'n pennu cyflogau yn y sector cyhoeddus. Yn ei rôl gyhoeddus arall, mae'n aelod o Bwyllgor Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar gyfer yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol. Mae'n Gymrawd ac yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt, yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Economeg yn Neuadd y Drindod, Caergrawnt, ac yn Athro Emeritws ym Mhrifysgol Dundee.

Mae'r Athro Chatterji yn gyn-gadeirydd Cydgyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub y DU (corff negodi cyflogau) ac mae wedi bod yn aelod o'r Corff Adolygu Athrawon Ysgol, sy'n gwneud argymhellion i'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ynghylch cyflogau, amodau, a threfniadau llywodraethu ar gyfer athrawon a phrifathrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyn-aelod o Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, sy'n ystyried materion trawsbynciol o ran cyflogau yn y sector cyhoeddus.

## *Yr Athro Laura McAllister*



Mae Laura McAllister yn Athro Llywodraethu yn Ysgol Reoli Prifysgol Lerpwl, ac yn arbenigwraig ar ddatganoli. Roedd Laura yn aelod o Gomisiwn Richard ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001-04), a darparodd gyngor ymchwil i'r Panel Annibynnol ar Gyflogau a Chymorth i Aelodau'r Cynulliad yn 2008-09. Laura oedd cadeirydd y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol rhwng 2013 a 2014.

Mae'n gyn-chwaraewr rhyngwladol ac yn gyn-gapten tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru sydd wedi ennill 24 o gapiau, ac mae Laura yn Gadeirydd Chwaraeon Cymru (Cyngor Chwaraeon Cymru gynt). Mae hi'n Aelod o Fwrdd UK Sport, sef asiantaeth y Llywodraeth ar gyfer chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd, ac yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru. Mae'n Ymddiriedolwr y Sefydliad Materion Cymreig, yn ogystal â bod yn aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru y Cyngor Prydeinig.

# Dadansoddiad o Gostau'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn dangos y costau uniongyrchol a ysgwyddwyd gan y Bwrdd Taliadau yn 2014-15. Yn ystod y cyfnod hwn, bu saith cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd. Aeth Aelodau'r Bwrdd i gyfarfodydd ychwanegol a thelegynadleddau gyda chynghorwyr allanol ynghylch pensiynau hefyd.

## *Ffioedd Aelodau'r Bwrdd (cyn treth)*

| | Sandy Blair (Cadeirydd) | Monojit Chatterji | Mary Carter | Stuart Castledine | Laura McAllister | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | **£** |
| Cyfradd ddyddiol | £243.00 | £185.00 | £185.00 | £185.00 | £185.00 | |
| Ffioedd | £7,720.30 | £5,920.00 | 4,551.14 | 4,810.65 | 1,850.00 | 24,852.09 |

## *Treuliau Aelodau'r Bwrdd*

| | Sandy Blair | Monojit Chatterji | Mary Carter | Stuart Castledine | Laura McAllister | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Milltiroedd mewn car | £746.55 | £624.15 | £72.90 | - | £91.80 | £1,535.40 |
| Tacsi / llogi car | - | £289.54 | £51.20 | - | - | £340.74 |
| Teithiau awyr | - | £1,277.17 | - | - | - | £1,277.17 |
| Tol | - | - | £6.50 | - | - | £6.50 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | - | £161.25 | £431.90 | £32.30 | - | £625.45 |
| Llety | - | £402.00 | £462.00 | - | - | £864.00 |
| Cynhaliaeth | £13.80 | £98.68 | £75.70 | - | - | £188.18 |
| Cyfanswm | £760.35 | £2,852.79 | 1,100.20 | £32.30 | £91.80 | £4,837.44 |

## *Costau ychwanegol*

| | Cyfanswm |
|---|---|
| Cyfarfodydd y Bwrdd | **£763.19** |
| Cyngor actiwaraidd ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad gan PwC | **£12,240.00** |
| Cyngor actiwaraidd ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad gan GAD | **£12,766.04** |
| Cyngor gan Brifysgol Bangor | **£8,232.33** |
| Cyngor gan Grwp Hay | **£18,260.62** |
| Cyngor cyfreithiol ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad gan Wragge & Co | **£37,370.00** |
| Cyngor Cyfreithiol gan Geldards ar wasanaeth parhaus staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | **£577.20** |
| Cyngor ar faterion cydraddoldeb gan Diverse Cymru | **£1,250.00** |
| Cyfanswm | **£91,459.38** |
| **Cyfanswm costau** | **£121,149.72** |